# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 1 - Y Senedd**

Dyddiad: Dydd Llun, 13 Ionawr 2020

Amser: 13.00 - 14.55

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/5869

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Mick Antoniw AC (Cadeirydd)<br>Suzy Davies AC<br>Carwyn Jones AC<br>Dai Lloyd AC |
| Tystion: | Des Clifford, Llywodraeth Cymru<br>Mark Drakeford AC, Prif Weinidog Cymru<br>Dr Robert Parry, Llywodraeth Cymru<br>Chris Warner, Llywodraeth Cymru |
| Staff y Pwyllgor: | P Gareth Williams (Clerc)<br>Sarah Sargent (Ail Glerc)<br>Mike Lewis (Dirprwy Glerc)<br>Manon George (Ymchwilydd)<br>Gareth Howells (Cynghorydd Cyfreithiol)<br>Rhiannon Lewis (Cynghorydd Cyfreithiol) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau na dirprwyon.

## 2 Y newid yng nghyfansoddiad Cymru: Sesiwn dystiolaeth 4

Cafodd eitemau 2 a 3 eu trafod gyda'i gilydd

Cymerodd y Pwyllgor dystiolaeth gan y Prif Weinidog a'i swyddogion.

Cytunodd y Pwyllgor i ohebu â'r Prif Weinidog ynghylch materion a godwyd yn ystod y sesiwn.

## 3 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Cytundeb Ymadael)

Gweler eitem 2 uchod.

## 4 Offerynnau sy'n codi materion i gyflwyno adroddiad yn eu cylch i'r Cynulliad o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

### 4.1 SL(5)485 – Rheoliadau Adeiladu (Diwygio) (Cymru) 2019

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn ynghyd ag ymateb y Llywodraeth a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Cynulliad yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd.

### 4.2 SL(5)486 – Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach) (Cymru) (Diwygio) 2019

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn ynghyd ag ymateb y Llywodraeth a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Cynulliad yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd.

## 5 Papur(au) i'w nodi

### 5.1 Llythyr gan y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Bil Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru)

Nododd y Pwyllgor y llythyr gan y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

## 6 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes a ganlyn:

Derbyniodd y Pwyllgor y cynnig.

## 7 Y newid yng nghyfansoddiad Cymru: Trafod y dystiolaeth

Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a chytunodd i ystyried materion allweddol mewn cyfarfod yn y dyfodol ar gyfer eu cynnwys mewn adroddiad drafft.

## 8 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Cytundeb Ymadael): Trafod y dystiolaeth

Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a bydd yn ystyried ac yn cytuno ar adroddiad drafft ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol y tu allan i'r Pwyllgor. Nododd yr Aelodau y byddai'r adroddiad yn cael ei osod erbyn y dyddiad cau gofynnol, sef 17 Ionawr 2020.

## 9 Gohebiaeth gan Gadeirydd y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad

Trafododd y Pwyllgor y llythyr a chytunodd i ysgrifennu at Gadeirydd y Pwyllgor Diwygio Etholiadol y Cynulliad maes o law.